# ADRODDIAD O'R GYNHADLEDD HAF

## 11 Gorffennaf 2009

Cynhaliwyd y gynhadledd ar ddydd Sadwrn 11 Gorffennaf 2009 yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod.

**Cyfranogwyr**

Gwahoddwyd Cymdeithasau Lleol Llywodraethwyr a grwpiau ar draws Cymru i anfon hyd at dri cynrychiolydd i'r gynhadledd. Hefyd gwahoddwyd Cyfarwyddwyr Addysg AALl a Chynghorwyr gyda phortffolio Addysg (neu eu cynrychiolwyr). Ynghyd â gwahoddedigion eraill daeth cyfanswm o …. i'r digwyddiad.

.

**Thema**

Thema'r gynhadledd oedd "Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a Diogelu Plant mewn Addysg".

Cafwyd cyflwyniadau gan Tom Davies Aelod Cymru ar Fwrdd Awdurdod Diogelu Annibynnol DU a Jane Hutt AC, Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Y Cynllun Fetio a Gwahardd (VBS)**

Dechreuwyd y gynhadledd gyda chyflwyniad gan Tom Davies dan y pennawd 'Y Cynllun Fetio a Gwahardd'.

Amlinellodd Mr Davies y cefndir i'r cynllun gan esbonio bod Adroddiad Bichard wedi dilyn Llofruddiaethau Soham yn 2002. Cyflwynwyd cyfanswm o 31 o argymhellion, yn bennaf am gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 yn elfen bwysig o'r rhaglen uchelgeisiol ac eang ei hamrediad o waith a sefydlwyd ar draws y llywodraeth i ddelio gyda methiannau systematig a nodwyd gan ymchwiliad Bichard.

Yn ei hanfod mae'r Ddeddf a chreu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (yr Awdudod) wedi deillio o argymhelliad 19 ***' dylid cyflwyo trefniadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, gael eu cofnodi. Byddai'r gofrestr yn cadarnhau nad oes rheswm gwybyddus pam na ddylai unigolyn weithio gyda'r grwpiau cleient hyn'.***

Esboniodd bod deg o aelodau wedi'u penodi'n gyhoeddus ar fwrdd yr Awdurdod gyda phrofiad o ddiogelu, ac roeddent yn derbyn cefnogaeth gan gannoedd o weithwyr achos. Diben yr Awdurdod yw helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion bregus.

Roedd y Cynllun Bario a Gwahardd yn gynllun gwirio a monitro ar-lein newydd a gwell gyda'r

nod o atal pobl anaddas rhag gweithio na gwirfoddoli gyda phlant ac/neu oedolion bregus. Bydd y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogai a gwirfoddolwyr sydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rheoledig i gofrestru gyda'r Awdurdod. Bydd pobl a ystyrir yn anaddas yn cael eu rhoi ar un o ddwy rhestr bario.

Bydd yn anghyfreithlon i gynnwys person sydd wedi'i fario mewn gweithgaredd rheoledig am unrhyw gyfnod o amser. Ar hyn o bryd mae manylion am sut yr hysbysir cyflogwyr yn cael eu trafod a bydd ar gael cyn hir.
Bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i rai sectorau roi gwybodaeth berthnasol i'r Awdurdod. Dim ond trwy rannu gwybodaeth gynhwysfawr y gall cynllun yr Awdurdod fod yn llwyddiannus o ran cyflawni ei nod o ddiogelu'r bregus yn ein cymdeithas.

Nid yw'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus yn gwahaniaethu rhwng **gwaith cyflogedig a gwaith heb gyflog** oherwydd mae gan y ddau fath y potensial i fynediad i blant ac/neu oedolion bregus.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod, ar y cyd gydag adrannau eraill y llywodraeth, yn y broses o lofnodi memorandwm dealltwriaeth gyda phartneriaid rhyngwladol fel Awstralia, Canada a Seland Newydd sydd yn rhannu gwerthoedd a diwylliant tebyg i ni yn y DU. Y nod yw sefydlu system rhannu data mwy effeithiol.

**Fel llywodraethwyr ysgolion, yr ysgol fel y lle penodol fydd o ddiddordeb mwyaf. Mae unrhyw weithgaredd sydd yn digwydd mewn ysgol ac sydd yn rhoi cyfle i ddod i gysylltiad gyda phlant (os yw'r cysylltiad yn digwydd yn wirioneddol neu os yw'n debygol) yn weithgaredd rheoledig ac felly rhaid ei gofrestru. Mae hyn yn cynnwys athrawon fel y byddech yn ei ddisgwyl ond hefyd staff swyddfa, contractwyr a gofalwyr er enghraifft.**

Mae **gweithgaredd rheoledig** yn cynnwys gwaith lle mae;

- **cysylltiad** gyda phlant ac/neu oedolion bregus trwy rinwedd y **math o weithgaredd** y mae cyflogai yn eu cynnal yn aml/yn ddwys/dros nos;
- **y lleoliad** lle maent yn gweithio os oes ganddynt ffurfiau eraill o gysylltiad gyda phlant ac oedolion bregus sydd yn digwydd yn aml/dwys;
- Maethu a gofal plant; neu
- **statws ac awdurdod a roddirar berson** oherwydd safle neilltuol. Mae'r safleoedd hyn wedi'u rhestru yn Atodlen 4 Rhan 1 adran 4(1) o'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus
    - Disgwylir i hyn fod yn berthnasol i tua 11 miliwn o weithwyr a gwirfoddolwyr

***I grynhoi bydd angen i lywodraethwyr gofrestru a hefyd fel cyflogwyr sydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rheoledig bydd angen iddynt:-***

**** Cyfeirio*** at yr Awdurdod unrhyw gyflogai neu wirfoddolwr a ddiswyddir neu a symudir o weithgaredd rheoledig oherwydd eu bod wedi cymryd rhan mewn ****ymddygiad perthnasol*** tuag at blentyn neu oedolyn bregus. Mae hyn yr un mor berthnasol i unigolyn sydd yn destun ymchwiliad am ymddygiad perthnasol ac yn ymddiswyddo cyn diwedd yr ymchwiliad disgyblu

- ***Gwirio*** statws Awdurdod yr holl gyflogai/gwirfoddolwyr newydd a'r rhai sydd yn newid swyddi ac unwaith y bydd y cynllun wedi'i gyflwyno yn llawn, sicrhau bod y rhai mewn gweithgaredd rheoledig wedi'u cofrestru

****ymddygiad perthnasol***

- Peryglu neu yn debygol o beryglu plentyn neu oedolyn bregus
- Os ail adroddir yn erbyn neu mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn bregus yn eu peryglu neu yn debygol o'u peryglu

- Yn cynnwys deunydd rhywiol mewn perthynas â phlant (yn cynnwys meddiannu deunydd o'r fath)
- Yn cynnwys delweddau rhywiol yn darlunio trais yn erbyn bodau dynol (yn cynnwys meddiannu deunydd o'r fath)
- Ymddygiad o natur rhywiol yn cynnwys plentyn neu oedolyn bregus os yw'n ymddangos i'r Awdurdod bod yr ymddygiad yn amhriodol.

**Prif Anerchiad gan Jane Hutt AC, Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.**

Dechreuodd y Gweinidog trwy gydnabod bod thema'r gynhadledd 'sicrhau bod plant yn ddiogel mewn lleoliadau addysg' yn cyffwrdd ar un o'r materion pwysicaf sydd yn wynebu cymdeithas ac nad oes dim yn bwysicach na sicrhau bod plant yn ddiogel. Nododd bod rhieni yn ymddiried mewn ysgolion i addysgu eu plant ac hefyd i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Fel Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – roedd yn rhoi cryn bwyslais ar y rhan hwnnw o'i theitl – ac roedd yn ymwybodol ac yn benderfynol o sicrhau bod popeth y gellir ei wneud yn cael ei wneud i ddiogelu plant.

Tynnodd sylw at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r swydd eithriadol o bwysig y mae'n rhaid iddo'i wneud ac roedd yn goebithio bod y cyflwyniad blaenorol ar ei waith wedi darparu dealltwriaeth gadarn o waith yr Awdurdod a gwerthfawrogiad bod y newidiadau angenrheidiol er lles cyffredinol.

Dywedodd ei bod yn bwriadu canolbwyntio ar rôl llywodraethwyr ysgolion mewn perthynas â diogelu a hefyd crybwyll rôl ysgolion yn y gymuned ehangach.

Pwysleisiodd y Gweinidog y rôl y mae llywodraethwyr yn ei chwarae mewn perthynas â diogelu yn deillio o'r ffaith bod llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau cyflogi staff ysgol. Mae ysgolion yn dibynnu ar bobl ac mae cael y staff cywir yn hanfodol ar gyfer llwyddiant. Roedd angen amlwg i ddewis athrawon a staff cefnogi da ond hefyd sicrhau eu bod yn bobl addas i weithio gyda phlant. Yn gryno, rhaid cynnal gwiriadau priodol ar staff newydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant.

Ond roedd cyfrifoldebau hefyd yn mynd ymhellach na recriwtio staff da. Daw cyfrifoldeb dros ddisgyblu staff gyda swyddogaethau cyflogaeth. Yn anffodus o dro i dro bydd achosion lle mae ymddygiad yn amhriodol neu gwneir honiadau sydd angen ymchwilio iddynt. Yn ffodus mae'r digwyddiadau hyn yn brin ond pan fyddant yn digwydd, rhaid gweithredu ar unwaith ac mewn modd priodol. Yr ymateb naturiol cyntaf i sefyllfaoedd o'r fath yw syndod ac anghrediniaeth. Nid yw'n amser i ddyfeisio gweithdrefnau ar y pryd. Felly'r cyfrifoldeb cyntaf i lywodraethwyr yw sicrhau bod gan eich ysgol weithdrefn ar gyfer disgyblu staff a bod y llywodraethwyr sydd yn eistedd ar bwyllgorau disgyblu staff yn deall y weithdrefn honno a'u bod wedi derbyn hyfforddiant a bod y weithdrefn yn cydymffurfio gyda'r gyfraith. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn argymell bod aelod o dîm arweinyddiaeth yr ysgol yn arwain ar faterion diogelu a bod y person hwnnw wedi'i hyfforddi ac yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddaraf a dylai fod ar gael i weithio gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill mewn achosion diogelu plant. Mae hefyd yn argymell eich bod yn dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu plant a fydd yn goruchwylio polisi ac ymarfer diogelu plant yr ysgol.

Atgoffodd y cynadleddwyr ei bod hefyd yn bwysig cofio na fydd y ffeithiau llawn mewn honiadau

o ymddygiad amhriodol staff bob amser yn wybyddus. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y gall sefydlu'r ffeithiau mewn unrhyw achos fod yn anodd ac mae felly wedi contractio Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol y gall llywodraethwyr alw arno, am ddim, ar gyfer unrhyw achos disgyblu staff lle mae materion diogelu plant yn elfen ohono.

Tra bod pob un ohonom eisiau i blant fod yn ddiogel yn yr ysgol rhaid cydbwyso hyn gyda dealltwriaeth y gall honiadau yn erbyn staff weithiau fod yn faleisus neu, hyd yn oed os cânt eu gwneud yn onest, gallant fod yn ddisail. Mae angen i staff ysgol hefyd fod yn ymwybodol y gall mynegi barn effeithio arnynt. Rhaid i staff fod yn hyderus y gallant wneud hynny heb fod mewn perygl o gael eu cosbi neu eu cywilyddio. Rhaid i bob ysgol felly gael gweithdrefn chwythu'r chwiban a hefyd manteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir gan awdurdodau lleol a chyngor ganddynt neu gan linell gymorth Llywodraethwyr Cymru ar gyfer llywodraethwyr.

Yn y cyd-destun ehangach esboniodd bod y Byrddau Diogelu Plant Lleol a'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau effeithiol yn bodoli. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio eu trefniadau diogelu i brofi eu cryfder ac i gywiro unrhyw wendidau a hefyd wedi sicrhau pwerau cyfreithiol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu dros blant bregus.

I gloi pwysleisiodd bod addysg a diogelwch plant yn holl bwysig a'i bod wedi siarad am faterion difrifol; materion yr oedd yn gobeithio na fyddai llawer yn eu wynebu, ond i'r rhai a fyddai yn eu wynebu roedd hefyd yn gobeitho y byddai'r synnwyr o ewyllys da a dyletswydd cyhoeddus oedd wedi'u cymell i ddod yn llywodraethwyr yn eu cynnal os byddent yn wynebu amseroedd anodd. Sicrhaodd y cynadleddwyr bod Llywodraeth y Cynulliad yn gosod y pwys mwyaf ar ddiogelu plant, a bod eu lles wrth galon yr ymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac agenda Hawliau i Weithredu Llywodraeth y Cynulliad.

**Sesiynau'r Gweithdai**

Cynigiwyd dewis o ddau weithdy (un yn y bore a'r llall yn y prynhawn) o'r sesiynau canlynol:

'***Trafod Cwynion'*** - Steve Gullick (Canolfan Genedlaethol Hyfforddiant ac Ymchwil Llywodraethwyr).

'***Sut y mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn diogelu'r cyhoedd?'*** - Hayden Llewellyn (Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor Addysgu Cyffredinol).

'***Diogelu Plant mewn Addysg/Cyfrifoldebau Llywodraethwyr dros Amddifffyn a Diogelu Plant*** - Margaret Davies (Pennaeth Cangen Lleiafrifoedd Ethnig ac Amddiffyn Plant, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) a Pat Davies (Rheolwraig, Cynllunio a Gywbodaeth, AALl Abertawe)

**Gofynnwyd i'r grwpiau nodi pynciau blaenoriaeth mewn perthynas â'r sesiynau gweithdy**:

Gweithdy 1 '***Trafod Cwynion'***
**Sesiwn y Bore**

1. Pob ysgol i fod â pholisi cwynion naill ai un y llywodraethwyr eu hunain neu un yr AALl ond angen perchnogaeth arno.
2. Nid yw pob cwyn yn gynwysedig yn y polisi cwynion (Taflen 1).
3. Nid yw trafod cwynion wedi'u datrys yn anffurfiol os nad yw gweithdrefnau cywir wedi'u

dilyn.
4. Pwysigrwydd paratoi da – ni ddylai gwrandawiadau fod yn fygythiol a dylent fod wedi'u ffocysu. A ddylai'r pennaeth fod yno?
5. Trin pob cwyn yn ddifrifol cyn gwneud penderfyniad sydd yn derfynol.

**Sesiwn y Prynhawn**

1 Cwynion yn erbyn y corff llywodraethu llawn – y pwyllgor cwynion yn cynnwys aelodau o'r corff llywodraethu i ddelio â hynny. Roedd cryn anghytuno ymysg y grŵp ynglyn â chywirdeb rheoliad hwn gan Lywodraeth y Cynulliad .

2 Dylid ymateb yn unig i gwynion ysgrifenedig. Dylid trin e-byst fel cwyn ysgrifenedig. Cafwyd trafodaeth am drin cwynion llafar fel cwynion dilys ai peidio.

3 Ydy pob cwyn yn gwyn dilys? Efallai nad yw popeth yr holir amdanynt yn gwynion i'r pwyllgor cwynion, ond gall fod yn bwnc testun polisi gwahanol.

4 Cwynion ffurfiol i'w trafod yn unol â pholisi a gweithdrefn.

5 Pwyllgor Cwynion rhaid iddo gynnwys tri llywodraethwr o leiaf

6 Gall llywodraethwyr gwadd gymryd rhan ond ni allant ddylanwadu ar y penderfyniad (ymgynghorol)

7 Defnyddio dau amrywiad o weithdrefnau sydd ar gael. Cafwyd trafodaeth i benderfynu pa un y dylid ei ddefnyddio. Mae gan pob un ei deilyngdod ac felly rhaid bod yn fater o ddewis gan y Pwyllgor Cwynion.

Gweithdy 2 '***Sut y mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn diogelu'r cyhoedd?'***

***Sesiwn y Bore***

1. Rhaid i ni fel llywodraethwyr wirio bod ein HOLL staff addysgu ar Restr y Gofrestr.
2. Mae angen hyfforddiant staff i ddeall y cyfrifoldebau'n llawn
3 Rhaid i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r wybodaeth hon, mae angen ei raeadru i'n haelodau
4 Sesiwn ddiddorol iawn.

**Sesiwn y Prynhawn**

1. Rhedeg cofrestr 'trwydded i ddysgu' – addasrwydd ar gyfer cofrestru.
2. Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar ysgolion i gyfeirio achosion diswyddo i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol.
3. Hawl mynediad i wybodaeth sydd ar y gofrestr (ar gyfer yr ysgol)

Gweithdy 3 '***Diogelu Plant mewn Addysg/Cyfrifoldebau Llywodraethwyr dros Amddifffyn a Diogelu Plant***

**Sesiwn y Bore**

1. Hyfforddiant ar ddiogelu plant o leiaf unwaith gyda diweddariadau.
2. Ydych chi'n llogi cyfleusterau ysgol ac a oes ganddynt ddogfennaeth ac yswiriant priodol?
3. Pe bai adolygiad achos difrifol yn cael ei gynnal a fyddech wedi cadw'r ddogfennaeth?
4. Materion ynghlwm â recriwtio.
5. Anhawster i gael gwybodaeth am gyflogai tramor.

**Sesiwn y Prynhawn**

Pawb yn cytuno gyda'r datganiad 'Mae lles y plentyn yn holl bwysig' ac mai 'Credo Llywodraethwyr' yw hapus, iach a diogel.

1. Cafwyd trafodaeth fywiog ar gyfrifoldeb llywodraethwyr mewn perthynas â Deddf Diogelu Grwpiau Bregus. Tra'n cytuno'n llwyr gyda'r egwyddor, amlygwyd nifer o broblemau ymarferol. Teimlai'r rhan fwyaf y byddai dryswch ynghylch y Gwiriad CRB yn cael ei gynnal ar yr un pryd, penodi staff dros dro – athrawon cyflewni er enghraifft – ac y byddai pryder parhaus am ddibynadwyaeth y Cynllun Bario a Gwahardd
2. Cytunodd pawb y dylai pob llywodraethwr fynd ar Gwrs Diogelu Plant ond ei bod yn hanfodol y dylai'r rhai gyda chyfrifoldebau arbennig (e.e. CP a llywodraethwyr cyswllt) dderbyn mwy o hyfforddiant.
3. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod y polisïau perthnasol yn bodoli a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan lywodraethwyr. Rhaid i'r Bwrdd ystyried pob gwybodaeth a newidiadau newydd cyn gynted â phosibl a gweithrdu os oes angen.
4. Pan fo problemau'n codi mae'n hanfodol ymgynghori gydag eraill (aml asiantaeth). Cytunwyd na allai'r un system o ddiogelu fod yn berffaith, ond mynegodd pawb hyder yng ngallu staff eu hysgolion eu hunain i ddangos cydymdeimlad a dealltwriaeth o'r plant dan eu gofal.
5. Nododd y rhai oedd yn bresennol y gweithdrefnau 'Adolygiad Achos Difrifol' – yn enwedig o ran cadw cofnodion.

**Gwerthusiad**

**1. Trefniadaeth y dydd:**

| Ardderchog | Da Iawn | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|
| 10 | 15 | 3 | 0 |

- Ø Lleoliad ardderchog.
- Ø Llawer i'w gynnwys yn yr amser oedd ar gael
- Ø Lleoliad da
- Ø Amserlennu da er dan bwysau
- Ø Lleoliad hyfryd, hawdd i'w ddarganfod a digon o leoedd parcio
- Ø Pob cyfarfod yn dda iawn
- Ø Llawer i'w wneud mewn un diwrnod ond mae'r trefnwyr i'w canmol
- Ø Wedi'i redeg yn dda ac yn ddiiddorol
- Ø Sesiynau'n rhedeg yn hwyr a dim digon o amser wedyn i ginio nac i roi adborth
- Ø Llyfn a chyfeillgar. Map cliriach ei angen i'n harwain i'r ganolfan e.e.mynediad o'r gogledd.
- Ø Lleoliad da iawn,
- Ø Digon o wybodaeth.

**2. Siaradwyr:**

| Ardderchog | Da Iawn | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|
| 8 | 19 | 3 | 0 |

- Ø Awdurdod Diogelu Annibynnol – da iawn ond nifer o gwestiynau pwysig heb eu hateb
- Ø Sgyrsiau diddorol a llawn gwybodaeth am eu pynciau

- Ø Cyflwyniad heb ei baratoi ar gyfer yr amser oedd ar gael ac roedd hynny'n drueni. Nifer o gwestiynau i'w gofyn
- Ø Ymatebion eithaf defnyddiol i'r cwestiynau
- Ø Mwynhau'r cyflwyniad ar gwynion
- Ø Dim digon o amser i ddelio gyda'r pwnc dan sylw
- Ø Y cyfan yn dda
- Ø Dim digon o amser i ofyn cwestiynau
- Ø Dylai siaradwyr geisio cadw at yr amser a roddwyd iddynt
- Ø Dim cyflwyniad yn Gymraeg

**3. Gweithdai:**

- Ø Trafod cwynion – da iawn
- Ø Diogelu plant mewn addysg - trafod mwy ar Awdurdod Diogelu Annibynnol oedd yn llai pwysig
- Ø Diddorol iawn – ond gellid fod wedi treulio mwy o amser ar bynciau gan fod llawer o gwestiynau wedi'u gofyn
- Ø Cyfrifoldebau llywodraethwyr- dim yn dilyn y cwestiwn ar ddyblygu a dryswch cadw Awdurdod Diogelu Annibynnol, CRB etc fel gweithgareddau ar wahân yn hytrach na chael un pwynt cyfeirio
- Ø Byddai rhagor o amser wedi bod yn ddefnyddiol
- Ø Diogelu plant mewn addysg – defnyddiol a chael dealltwriaeth am rôl Awdurdod Diogelu Annibynnol
- Ø Sut mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Nghymru yn diogelu'r cyhoedd?
- Ø Anghytuno parhaus gyda chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar aelodaeth pwyllgor cwynion
- Ø Trafod cwynion – angen mwy o eglurder pan fo'r corff llywodraethu cyfan dan sylw
- Ø Roedd cynrychiolydd Awdurdod Diogelu Annibynnol yn dda – angen mwy o amser
- Ø Nifer o gwestiynau heb eu hateb – rôl Awdurdod Diogelu Annibynnol
- Ø Y cyfan yn dda iawn, rhyngweithio da, gwerthfawrogi'r holl sylwadau
- Ø Dim gweithdai yn Gymraeg
- Ø Mynd dros amser – Gweithdy 1 – yn hwyr yn cychwyn gan fod y siaradwyr cyntaf yn hwyr yn gorffen

**4. Trefniadau cyffredinol:**

**Gwybodaeth a gafwyd cyn y gynhadledd**

| Ardderchog | Da Iawn | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|
| 13 | 11 | 3 | 0 |

**Gwybodaeth a dderbyniwyd ar ddiwrnod y gynhadledd**

| Ardderchog | Da Iawn | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | 11 | 2 | 0 |

**5. Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud:**

- Ø Byddai'n braf fod wedi mynd i un o'r gweithdai eraill, roedd y cyfan yn bynciau ardderchog
- Ø Braf cyfarfod pawb
- Ø Da iawn y trefnwyr
- Ø Lleoliadau eraill posibl – De a Gogledd
- Ø Pob gweithdy wedi cael eu torri'n fyr gan fod y sesiynau wedi rhedeg yn hwyr. Anerchiadau yn y prynhawn efallai a gweithdai yn y bore
- Ø Ni chafwyd nodiadau tan ddiwedd y cyflwyniadau. Hoffwn eu cael yn ystod y cyflwyniadau i wneud nodiadau fy hun ar y tudalennau cywir
- Ø Trueni na chafwyd cyflwyniad yn Gymraeg. Roedd mwyafrif y papurau a ddosbarthwyd yn Saesneg yn unig. Gall sleidiau fod yn ddwyieithog.

**6. Unrhyw awgrymiadau am gynadleddau yn y dyfodol?**

- Ø Cydnabyddiaeth i lywodraethwyr, cyngor cyfreithol, canllaw a chynrychiolaeth
- Ø Fframwaith Arolygu Newydd ar gyfer 2010
- Ø Delio gydag Undebau
- Ø Rhagor o amser gweithio i'r gweithdai gan wneud diwrnod llawer mwy diddorol
- Ø Gweithdrefnau Gallu i staff addysgu
- Ø Gweithdrefn Cwynion am y Cwricwlwm
- Ø Gwell amseru ar gyfer siaradwyr a holi cwestiynau
- Ø Cynnal y gynhadledd yn ystod yr wythnos

**Casgliad**

Cyflawnodd y gynhadledd ei nod o alluogi'r cynadleddwyr i archwilio nifer o bynciau yn berthynol i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a Diogelu Plant mewn Addysg.

Bwriadwn adeiladu ar y gynhadledd lwyddiannus hon a hefyd trefnu nifer o ddigwyddiadau rhanbarthol yn ystod 2009/2010.